Tynged yr Ysgolion

Ysgol Glan y Môr, Pwllheli, Mawrth 1af, 2008

Tua mis yn ôl, mewn cyfarfod o aelodau rhai o ganghennau Plaid Cymru ym Mhwllheli gofynnais i Arweinydd Cyngor Gwynedd a fyddai yn egluro i'r trethdalwyr bod yna bwysau o'r tu allan ar y Cyngor i ddiwygio rhywfaint ar y drefn addysgol yn y Sir. Ychwanegais hefyd sylw ei bod yn amlwg i bawb, ond inni fod yn onest â ni ein hunain, bod sefyllfa rhai ysgolion cynradd yn fregus. Ateb Richard Parry Hughes i hyn oedd datgan nad oedd o eisiau taflu'r bai am yr hyn sy'n digwydd ar neb arall. O gymryd y llwybr hwn y mae yn gwneud cam â Chyngor Sir Gwynedd, oblegid daw yn amlwg o sawl cyfeiriad - yn cynnwys y ddogfen ymgynghorol, bod pwysau ar yr awdurdod i weithredu mewn rhyw ddull a modd i "ddiwygio" darpariaeth addysg gynradd y Sir.

Fe nodir hynny yng nghofnodion Cyfarfod Ymgynghorol Dalgylch Ysgol Eifionydd, Mawrth 22, 2007, - "Pryder aelodau etholedig Gwynedd yw y bydd y Llywodraeth [Llafur y pryd hynny] yn gorfodi cau ysgolion os na fydd trefniadau cydweithio digonol yn eu lle". Felly y mae'n amlwg mai brwydr rhwng y Gymru wledig â Llywodraeth y Cynulliad ar y pryd ac amryw gyrff cysylltiol eraill yw'r ymrafael hwn yn y bôn. Y mae gwrthdaro rhwng gofynion Llywodraeth y Cynulliad (yn ogystal â llywodraeth San Steffan) yn digwydd ar sawl ffrynt e.e. Arolygwyr Cynllunio'r Llywodraeth yn mynd yn groes i ddyfarniad y Cynghorau etholedig ac yn gwrthod caniatáu adeiladu tai yng nghefn gwlad fyddai yn gaffaeliad i rai cymunedau.

Lleiafrif bach iawn yw trigolion cefn gwlad ar raddfa Brydeinig, a lleiafrif ydym yng Nghymru hefyd, a'r meddylfryd trefol sy'n teyrnasu. Cyfrif pennau, arbed arian, canoli pob dim a thrwy hynny greu haenau newydd o fiwrocatiaeth yw'r hyn sy'n gyrru'r gweinyddwyr - yn lleol a chenedlaethol - yn hytrach na cheisio darparu yn ôl yr angen. Darparu addysg yn ôl yr angen - o fewn rheswm wrth gwrs – a wneir yn rhai o wledydd call, tenau eu poblogaeth, gogledd Ewrop. Wedi dweud hyn, i fod yn onest â ni ein hunain o ystyried yr hyn sy'n rhesymol yma yng Ngwynedd, mae'n siwr na ellir osgoi'r broblem o orfod cau rhai ysgolion.

Yn fy marn i y mae'r ddogfen ymgynghorol yn gryf yn drefniadol ond y gwendid erbyn hyn yw bod y trefniadau hynny yn cael eu gwthio o'r top i lawr ar yr ysgolion gan y rhai a'i lluniodd. Gwendid arall ynddi yw ei bod yn llawn ystrydebau addysgol, - ymadroddion taflu llwch i lygad megis "er lles plant" a "gwell addysg", ond nid oes neb yn gwybod beth fydd canlyniadau cymdeithasol nac addysgol cynllun o'r fath. Y mae'r dystiolaeth addysgol yn brin ynddi, a rhaid gofyn y cwestiwn pwy yw'r addysgwyr sydd wedi bod yn ei llunio?

Yn y gorffennol ysgol fach oedd ysgol tri athro a llai. Yn dilyn Adroddiad Gittins, 1967 fe anelid wrth greu Ysgol Ardal at gael ysgol o tua 60 + o blant ond nid oedd tystiolaeth addysgol gref dros nodi'r trothwy hwnnw. Yn y 1990au diffiniai yr Audit Commission (Prydeinig) ysgol fach fel un â llai na 90 o blant, a dyna hefyd yw ffigur Llywodraeth y Cynulliad. Pam 90? Ai oherwydd bod yr addysg yn well ? Na, y ffon fesur yn ôl syms Arolygwyr Estyn yw cost y pen. Yn ôl Estyn y mae cost y pen o ddarparu addysg yn cynyddu'n sylweddol mewn ysgolion sydd â llai na 90 plentyn.

(Gweler Pwynt 15, Cyfarfod Ymgynghorol Dalgylch Ysgol Eifionydd). Dyma enghraifft arall eto o ystyriaethau cyllidol yn gwasgu ar gefn gwlad.

Rhai sylwadau am yr hyn a gynigir yn y ddogfen ymgynghorol: -

1. Nodir bod yn rhaid dileu'r llefydd gweigion yn ysgolion y Sir. Nid yw ffederaleiddio cyfran uchel o'r ysgolion yn mynd i gael gwared ag unrhyw le gwag. Fe geir gwared â rhai llefydd gwag wrth greu ysgol ardal oherwydd y bydd rhai ysgolion o fewn yr ardal honno yn cau. Dim ond drwy gau ysgolion y ceir gwared â llefydd gwag.

2. Mater dadleuol yw honni bod creu ysgolion ardal yn mynd i arbed arian yn y pendraw. Beth fydd gwir gostau cyflafaf codi adeiladau newydd? Sut y gellir rhagweld gwir gost cludo plant i'r ysgolion newydd dros y tymor hir? Yn sicr bydd rhai o'r staff ategol (cegin a glanhau) yn colli eu swyddi yng nghefn gwlad, ond mae'n bosib y bydd angen rhagor o gynorthwywyr dosbarth.

   Y mae ymchwil i'r hyn ddigwyddodd mewn rhai ardaloedd yn y gorffennol wedi dangos bod 'cyfrifo creadigol' (*creative accounting*) o du'r gweinyddwyr wedi cam-arwain cymunedau gwledig ac y mae'r 'Goblygiadau Cyllidol' ar dudalen 35 o'r ddogfen yn sawru o hynny.

3. Mae creu ysgolion ffederal yn ganolog i'r ddogfen. Mae ysgolion ffederal wedi ac yn gweithio mewn rhai mannau ond yn gyffredinol y mae cynnal cydweithrediad rhwng gwahanol unedau ac ardaloedd yn fater dyrys, ac y mae angen sensitifrwydd mawr i gael y system i weithio. Cyfeirir yn y ddogfen at hyd at bedair ysgol yn uno o dan 'Bennaeth Arweiniol' a 'Phenaethiaid Safle'. Fy marn i yw y bydd hyn yn creu haen ddrud o fiwrocratiaeth, ac yn agor y drws i gyfrifoldebau ddisgyn rhwng dwy stôl. O fy mhrofiad fel pennaeth yn y gorffennol ni welaf sut y mae unrhyw Bennaeth Arweiniol yn mynd i allu adnabod anghenion nifer o ardaloedd gwahanol fel y gall arwain yr amrywiol ofynion cymdeithasol a chymunedol fydd yn ddisgwyliedig oddi wrtho yn rhinwedd ei swydd e.e. sut y mae yn mynd i adnabod a deall anghenion y plant a theuluoedd yr ysgol ffederal?

   Yn Atodiad 2, adran 1.2 o'r ddogfen ymgynghorol dyfynnir o Gylchlythyr y Cynulliad 14/2006 ynglŷn â Safonau Cenedlaethol Diwygiedig i Benaethiaid yng Nghymru lle nodir tair egwyddor sylfaenol i waith pennaeth. Un ohonynt yw "bod â dysgu yn ganolog iddo" ond yn syth wedyn mae adran 1.3 o'r ddogfen yn ddatgan - "Bydd sicrhau haen o benaethiaid fydd yn rhydd o orfod ymrwymo i ofal dosbarth yn eu galluogi i ganolbwyntio ar yr egwyddorion yma". Sut y cysonir hyn?

   Eir ymlaen wedyn yn adran 1.5 i daro yr un tant wrth gyfeirio y bydd "Cryfhau'r ffocws Cymunedol" yn un o ddyletswyddau'r pennaeth arweiniol a bod hynny yn cynnwys "arwain ar ddatblygiadau fydd yn hyrwyddo lles a hawliau plant cynradd a sicrhau cyfleoedd iddynt gyfrannu at gyd-gynllunio gweithgareddau cymunedol a gwasanaethau ehangach i blant yn eu hardaloedd". Beth yn hollol a olygir wrth y bwriadau blodeuog hyn? Sawl

pennaeth arweiniol fydd â chymwysterau addas heb sôn am brofiad yn y cyfeiriadau yma?

Os ffederaleiddio, yna bydd yn rhaid gadael i hynny ddigwydd rhwng dwy (neu dair ysgol ar y mwyaf) a'r rheiny yn ysgolion fydd yn ieuo yn gymharus, a'r awydd i uno yn un ysgol ffederal yn codi o'r cymunedau eu hunain. Efallai y gellir annog rhywfaint a rhoi arweiniad manwl am y goblygiadau i gyd, - dyna fy marn i. Os yw ffederaleiddio rhagor na dwy neu dair ysgol yn llwyddiant mewn rhai mannau yn Lloegr, dylid cadw mewn cof nad oes yn y siroedd gwledig yno y deimensiwn ieithyddol dwyieithog sydd yn greiddiol i addysg yng Ngwynedd.

Cyfeirir hefyd yn y ddogfen at yr hyn fydd yn deillio o ffederaleiddio – bydd y trefniant newydd "yn ganolbwynt i weithgareddau cymunedol eu dalgylchoedd" (adran 4.2.2). Ardderchog, - ond pwy fydd yn talu

- am y defnydd o'r ysgolion yn gymunedol ?
- am gludo'r plant i weithgareddau ar y cyd o'r gwahanol safleoedd ?

Dim ond crybwyll dwy elfen a wnaf yma, - mae amryw o gwestiynau eraill sydd angen eu gwyntyllu ynglŷn â'r drefn, yn enwedig y cyllido, ac nid oes tystiolaeth 'leol' i'r perwyl hwnnw o gwbl yn y ddogfen.

4. Ni allaf weld bod creu cyfundrefn o ysgolion ffederal yn mynd i'r afael â'r ffaith bod polisi Llywodraeth (Lafur ar y pryd) y Cynulliad o ddewis a dethol ymgeiswyr ar gyfer ennill cymhwyster prifathrawiaeth yn milwrio yn erbyn ysgolion gwledig. Honnir na cheir cyfle ynddynt i'r ymgeiswyr gael profiad rheolaethol digonol i gael eu hystyried i gychwyn ar gyfer y cymhwyster. Dyma enghraifft arall eto o roi ysgolion gwledig o dan anfantais. Da deall bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn dadlau y mater hwn efo'r Gweinidog oedd â chyfrifoldeb dros addysg ar y pryd. O'm profiad fel aseswr ar y cynllun 'Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth' yn y gorffennol, yr oedd y bwlch mewn profiadau rheolaethol rhwng athrawon oedd â rhywfaint o gyfrifoldebau arbennig mewn ysgol fach a'r athrawon o ysgolion cynradd "digonol eu maint" yn ôl ffon fesur y Cynulliad yn llawer llai na'r bwlch enfawr o ran profiadau a gofynion rheolaethol oedd rhwng swyddi dirprwyon cynradd a'r dirprwyon a'r uwch-athrawon o'r sector uwchradd oedd yn mynd drwy yr un broses. Hyd yn oed o ffederaleiddio pedair ysgol, profiad o fod mewn un ysgol (fel y caiff ei hadnabod) gyda phedair safle sy'n cyfateb i faint presennol yr ysgolion fydd gan unrhyw athro ynddi heblaw am y penaethiaid (os na chreir haenau eraill o ddirprwyon).

Yn y ddogfen ymgynghorol fe nodir pedwar bwriad, sef –

(a) Cau rhai ysgolion
(b) Dim newid mewn rhai ysgolion
(c) Sefydlu ysgolion ffederal
(ch) Creu ysgolion ardal

Awgrymaf y dylid rhoi sylw pellach i glystyru ygolion a hefyd ystyried creu consortiwm o ysgolion.

Clystyru ysgolion

Golyga hyn bod hyd at 4 neu 5 ysgol (dyweder) yn cydweithio gyda thimau o athrawon fyddai yn cefnogi a chynnal gwaith pob clwstwr, a'r cyfan o dan ofal cydlynydd i'r holl gynllun sirol. Byddai hyn yn gallu sicrhau arbenigedd pynciol i'r ysgolion unigol, yn caniatau amseroedd rhydd dyladwy i athrawon ac yn hybu cydweithio heb neb dan fygythiad. Byddai hefyd yn gallu ymdebygu i'r drefn lwyddiannus o Athrawon Bro Cymraeg a arloeswyd gan Wynedd ond a aeth i'r gwellt pan ddaeth ysgolion unigol i ofalu am eu cyllidebau eu hunain.

Consortiwm o ysgolion

Golyga hyn bod nifer o ysgolion yn cydweithio drwy ddatblygu perthynas weithredol efo'r ysgol uwchradd gysylltiedig. Gallai'r ysgol uwchradd fod yn ganolog i fwy nag un consortiwm o fewn y dalgylch.

Rwy'n nodi'r llwybr yma yng nghyd-destun yr ysgolion uwchradd am reswm arbennig, - oblegid os yw niferoedd y plant yn yr ysgolion cynradd yn mynd i ostwng fel yr honnir, yna fe fydd yr ysgolion uwchradd yn cael eu heffeithio yn arw ymhen rhai blynyddoedd.(Mae'n debyg bod hyn yn ffactor yn y cynlluniau yn Nolgellau). Oni ddylid yn awr feddwl am ddatblygu cynlluniau fydd yn cymryd hyn i ystyriaeth yn gyffredinol fel y gellir o bosib arbed argyfyngau mewn rhai ysgolion uwchradd? O fod ag ysbryd arloesol a hyblygrwydd proffesiynol a chyllidol fe allai rhai ysgolion cynradd fanteisio ar arbenigeddau rhai o'r athrawon uwchradd. Byddai elfennau o'r broses o drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd hefyd yn cael eu hyrwyddo.

Fodd bynnag, fel gyda clystyru, mae'n debyg mai'r bwgan mwyaf efo ceisio creu consortia fyddai cyllido gan fod pob sefydliad ar hyn o bryd yn ynys gyllidol.

Yn gyffredinol y mae'r ddogfen ymgynghorol wedi ein hysgwyd i ystyried sefyllfa yr ysgolion a'r cymunedau a wasanaethant. Ni ellir osgoi'r ffaith y bydd yn rhaid wynebu peth newid, ac y mae gofyn i bawb ar bob ochr fod yn rhesymol a gonest. Yr hyn y dylai Cynghorwyr Gwynedd a'r Gweinyddwyr sy'n eu gyrru ymlaen ei wneud yw gwrando ar lais rheswm yn hytrach na llamu i'r tywyllwch addysgol, ieithyddol a chymdeithasol efo bwriadau sy'n or-ddibynnol ar y gair hud "ffederaleiddio".

Twm Prys Jones